

Cynllun gweithredu mewn ymateb i Adroddiad AGIC Mehefin 2013 (Derbyniwyd yr Adroddiad ym mis Ebrill 2014)

Argymhelliad	Gan Bwy	Ymateb y CPG/Camau gweithredu	Amserlen (gyda dyddiadau)	STATWS CAG [Coch/Ambr/Gwyrdd]
Amgylchedd yr Uned				
Dylai'r Bwrdd lechyd adolygu cynllun, dyluniad a maint yr ystafelloedd yn yr adran damweiniau ac achosion brys (A&E) a'r uned asesu meddygol (MAU).	Tîm Gweithredu'r CPG Metronau'r adran A&E a'r MAU	Rydym yn ymwybodol o gyfyngiadau pob ardal o ran cynllun, dyluniad a maint. Cafodd yr adran A&E ei haddasu yn 2008 yn unol â'r templed presennol. Ychydig iawn o gyfle sydd i ymestyn yr ardaloedd hyn ymhellach oherwydd gofod ffisegol a chostau cyfalaf.	Wedi'i gwblhau	Gwyrdd
Dylai'r Bwrdd lechyd gynnal adolygiad o argaeledd glanweithyddion llaw a chyfleusterau golchi dwylo ar draws y ddwy adran.	Jayne Gregory/ Lesley Cooil a'r Tîm Rheoli Heintiau	Mewn ymateb i'r adolygiad cychwynnol hwn, mae glanweithyddion llaw ychwanegol wedi'u gosod mewn cydweithrediad â'r tîm rheoli heintiau. Mae gel llaw bellach ar gael wrth ymyl pob gwely.	Wedi'i gwblhau	Gwyrdd
Dylai'r Bwrdd lechyd adolygu trefniadau storio yn yr adran A&E a'r MAU i sicrhau nad oes unrhyw gyfarpar yn cael ei gadw mewn ardaloedd cleifion ac nad yw'n rhwystro Allanfeydd Tân.	Tîm Gweithredu'r CPG Jayne Gregory/ Lesley Cooil	Cafodd prinder cyfleusterau storio ei drafod yng nghyfarfod y tîm ystadau. Maent bellach yn adolygu'r trefniadau hyn yn unol â chynllun datblygu safle'r ysbyty. Camau gweithredu: <ul style="list-style-type: none"> Gosod prinder cyfleusterau storio ar gofrestri risg lleol. Yn sgil asesiad, cytunodd y swyddog tân y gall cyfarpar gael ei osod o flaen allanfeydd tân cyn belled â bod modd ei symud yn rhwydd, ac mae pob aelod o 	Wedi'i gwblhau Wedi'i gwblhau	Ambr Gwyrdd Gwyrdd

		staff bellach yn ymwybodol o hyn.		
Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod digon o doiledau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn y ddwy adran a bod arwyddion clir iddynt.	Tîm Gweithredu'r CPG ac Ystadau	Mae metronau'r ardaloedd perthnasol wedi cynnal adolygiad ac wedi dod i'r casgliad bod digon o arwyddion i'r toiledau. Maent hefyd wedi dod i'r casgliad bod y cyfleusterau toiled sydd ar gael yn ddigonol. Ni chafwyd unrhyw adborth gan gleifion yn nodi nad oes digon o doiledau.	Wedi'i gwblhau	Gwyrdd
Dylai'r Bwrdd lechyd adolygu'r trefniadau eistedd ar gyfer cleifion yn yr ardaloedd aros, gan sicrhau bod y seddi'n gyfforddus ac yn addas i gleifion hŷn ac eiddil.	Tîm Gweithredu'r CPG Jayne Gregory	Mae'r seddi wedi'u newid yn ddiweddar gan nad oedd y seddi blaenorol yn addas i'r diben. Mae'r seddi hyn yn cydymffurfio â chanllawiau rheoli heintiau a chanllawiau'r cynhyrhydd.	Wedi'i gwblhau	Gwyrdd
Dylai'r Bwrdd lechyd adolygu ardal y dderbynfa yn yr adran A&E a sicrhau bod staff y dderbynfa'n gallu clywed y cleifion, heb gyfaddawdu cyfrinachedd y cleifion.	Tîm Gweithredu'r CPG Jayne Gregory/Nia Harrison	Mae nam dylunio ar y sgrin wydr yn nerbynfa'r adran A&E. Mae amryw o addasiadau wedi'u gwneud i geisio datrys y broblem hon. Cam gweithredu: <ul style="list-style-type: none"> • Cynhelir adolygiad pellach gyda rheolwyr yr adeilad. 	Mai 2014	Ambr
Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod gan staff yn ardal frysbenneu'r adran A&E system ddigonol sy'n eu galluogi i alw cleifion i'r ardal frysbenneu heb orfod gadael yr ardal.	Tîm Gweithredu'r CPG Jayne Gregory	O safbwynt clinigol, mae'r Fetron wedi cynghori y dylai'r staff nyrsio adael yr ardal frysbenneu i alw cleifion. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn gallu gweld y cleifion a'u helpu yn ôl yr angen a chael cyswllt priodol â'r ystafell aros. Roedd hyn yn un o'r argymhellion mewn adroddiad diweddar gan y Cyngor lechyd Cymuned hefyd.	Wedi'i gwblhau	Gwyrdd
Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod modd i unrhyw deganau yn ardal bediatrig yr adran A&E gael eu glanhau'n briodol.	Jayne Gregory	Mewn ymateb i'r ymweliad, erbyn hyn nid oes unrhyw deganau nad oes modd eu glanhau yn yr adran A&E.	Wedi'i gwblhau	Gwyrdd

Agwedd ac Ymddygiad y Staff a'u Gallu i Ddarparu Gofal gydag Urddas				
Dylai'r Bwrdd lechyd adolygu darpariaeth ystafelloedd i berthnasau, lefelau staffio presennol a chymysgedd sgiliau yn y ddwy adran	Tîm Gweithredu'r CPG Jayne Gregory/ Lesley Cooil	<p>Mae ystafelloedd i berthnasau bellach ar gael yn y ddwy ardal. Roedd eisoes gan yr adran A&E ddwy ystafell i berthnasau adeg yr ymweliad.</p> <p>Mae lefelau staffio a chymysgedd sgiliau yn cael eu hadolygu bob dydd.</p> <p>Mae'r lefelau staffio cyffredinol wedi'u hadolygu ac mae'r adran wedi recriwtio mewn ymateb i hyn.</p>	Wedi'i gwblhau	Gwyrdd
Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod gan ardal bediatrig yr adran A&E yr adnoddau sydd eu hangen i sicrhau y gall yr ardal fod ar agor 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.	Tîm Gweithredu'r CPG Jayne Gregory	Mae'r ardal bediatrig yn cael ei staffio rhwng 10am ac 8pm ar hyn o bryd, ond mae'r adran wrthi'n recriwtio er mwyn sicrhau y gall yr ardal fod ar agor 24 awr y dydd.	Mai 2014	Gwyrdd
Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod pob aelod o staff yn gwisgo bathodynau adnabod fel bod modd eu hadnabod pan fyddant ar ddyletswydd.	Jayne Gregory/ Lesley Cooil	<p>Mae pob aelod o staff yn y ddwy ardal yn gwisgo bathodynau adnabod, gyda'u henwau i'w gweld yn glir arnynt. Mae angen y bathodynau hyn er mwyn mynd i mewn i'r ddwy adran ac agor y cabinetau meddyginiaethau.</p> <p>Os bydd y Metron neu Brif Nyrs y Ward yn gweld aelod o staff heb ei fathodyn adnabod, bydd yn mynd ati i nodi a datrys y mater yn syth.</p>	Wedi'i gwblhau	Gwyrdd
Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau darpariaeth ystafell i berthnasau yn yr MAU.	Tîm Gweithredu'r CPG Lesley Cooil	Erbyn hyn, mae yna ystafell i berthnasau yn yr Uned Asesu Meddygol.	Wedi'i gwblhau	Gwyrdd
Rheoli cleifion sy'n dioddef o ddrwsych neu ddementia a chleifion				

â chyflwr seiciatrig/iechyd meddwl.				
Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried rhoi menter ar waith yn yr adran A&E i helpu staff i ofalu am gleifion sy'n dioddef o ddryswch neu ddementia.	Tîm Gweithredu'r CPG Jayne Gregory	Mae tîm yr adran A&E yn cyfrannu'n llawn at gynllun Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer ofalu am gleifion sy'n dioddef o ddryswch a dementia. Cam gweithredu: <ul style="list-style-type: none">Dylai pob aelod o staff yr adran A&E dderbyn hyfforddiant ffurfiol ar ddefnyddio'r cynllun gloynnod byw.	Mai 2014	Ambr
Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod arwyddion darluniadol ar ddrysau pob toiled ac ystafell ymolchi yn yr adran A&E a'r MAU.	Tîm Gweithredu'r CPG Ystadau Jayne Gregory/Lesley Cooil	Mae gan yr adran A&E arwyddion darluniadol ar ddrysau pob toiled ac ystafell ymolchi. Cam gweithredu – <ul style="list-style-type: none">Mae'r Fetron wedi archebu arwyddion darluniadol i'w rhoi ar ddrysau pob toiled ac ystafell ymolchi yn yr MAU.	Wedi'i gwblhau Mai 2014	Gwyrdd Ambr
Hylif a Maeth				
Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod cleifion yn yr adran A&E yn gallu cael gafael ar ddŵr yfed ffres a bod y peiriant bwyd yn cynnwys digon o fwydydd priodol i gleifion â gofynion deietegol arbennig e.e. cleifion diabetig.	Tîm Gweithredu'r CPG Jayne Gregory	Mae dŵr yfed ffres ar gael i bob claf yn yr adran A&E. Mae'r peiriant bwyd yn cael ei ailgyflenwi'n rheolaidd gyda dewisiadau iach. Mae staff yr adran A&E a'r staff arlwygo bob amser yn bodloni gofynion deietegol arbennig. Ers yr ymweliad, mae gwasanaethau arlwygo i gleifion yn yr adran wedi gwella, gyda phrydau poeth yn cael eu darparu ar droli poeth.	Wedi'i gwblhau	Gwyrdd

<p>Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod byrddau ochr gwely'r cleifion yn cael eu glanhau/cirio cyn i brydau gael eu gweini yn y ddwy adran.</p>	<p>Jayne Gregory/ Lesley Cooil</p>	<p>Mae hyn yn cael ei wneud yn y ddwy adran ac mae Metronau'r ddwy ardal yn atgoffa'r staff yn rheolaidd o'r angen i lanhau byrddau ochr gwely yn rheolaidd a chyn gweini prydau.</p> <p>Mae trefniadau rowndio bwriadol ar waith yn y ddwy ardal i sicrhau bod ardaloedd gwelyau'n lân ac yn daclus.</p> <p>Mae'r adran A&E wedi archebu amryw o fyrddau ochr gwely ychwanegol i sicrhau bod digon o fyrddau ar gael i gleifion.</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>	<p>Gwyrdd</p>
<p>Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod cleifion yn cael cynnig 'clytiau llaw' cyn bwyta eu prydau.</p>	<p>Jayne Gregory/ Lesley Cooil</p>	<p>Mae hon yn ddyletswydd reolaidd i'r nyrsys cofrestredig a'r Cynorthwywyr Gofal lechyd yn y ddwy ardal.</p> <p>Cam gweithredu-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dylai hyn fod yn eitem ar agenda cyfarfodydd staff y ddwy ardal. 	<p>Wedi'i gwblhau</p>	<p>Gwyrdd</p>
<p>Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod staff yn yr MAU yn cael eu hatgoffa o bwysigrwydd helpu cleifion i fwyta a sicrhau bod eu jygiau a'u cwpanau o fewn eu cyrraedd bob amser.</p>	<p>Lesley Cooil</p>	<p>Mae trefniadau rowndio bwriadol ar waith yn yr MAU ac mae hyn yn ysgogi staff i sicrhau bod cleifion yn cael cynnig diodydd a sicrhau bod hylifau o fewn eu cyrraedd.</p> <p>Mae pob aelod o staff yn ymwybodol o hyn a chaiff y mater ei amlygu mewn briff diogelwch pan fo cleifion angen cymorth i fwyta. Erbyn hyn, mae gennym fyrddau gweledol sy'n nodi cleifion sydd angen cymorth i fwyta.</p> <p>Fel rhan o'r agenda urddas a pharch, rydym wedi penodi HCSWs i hyrwyddo'r mater yn yr MAU.</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>	<p>Gwyrdd</p>

Briwiau Pwyso				
Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod cleifion sy'n mewn perygl o gael briwiau pwyso yn gallu cael gafael ar y cyfarpar priodol bob amser.	Tîm Gweithredu'r CPG Jayne Gregory/ Lesley Cooil	Mae yna ganllawiau clir ar waith yn y ddwy ardal ar gyfer trin cleifion sydd mewn perygl o ddatblygu briwiau pwysau. Mae cyfarpar priodol megis matresi ar gael ond mae yna rai adegau pan nad yw'r cyfarpar ar gael. Cam gweithredu – <ul style="list-style-type: none"> • Gosod y risg hon ar gofrestri risg lleol y ddwy ardal. 	Wedi'i gwblhau	Gwyrdd
Gofal a Hylendid Personol				

Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod gan yr adran A&E ei chyflenwad ei hun o becynnau personol i gleifion bob amser.	Tîm Gweithredu'r CPG Jayne Gregory	Ers yr ymweliad, mae pecynnau personol wedi'u harchebu ac maent bellach ar gael fel stoc yn yr adran A&E.	Wedi'i gwblhau	Gwyrdd
Anghenion Toiled				
Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod digon o doiledau ar gael i gleifion yn y ddwy adran.	Tîm Gweithredu'r CPG Ystadau Jayne Gregory/ Lesley Cooil	Mae metronau'r ardaloedd perthnasol wedi cynnal adolygiad ac wedi dod i'r casgliad bod digon o arwyddion i'r toiledau. Maent hefyd wedi dod i'r casgliad bod y cyfleusterau toiled sydd ar gael yn ddigonol. Ni chafwyd unrhyw adborth gan gleifion yn nodi nad oes digon o doiledau.	Wedi'i gwblhau	Gwyrdd
Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod agwedd gyson at lanhau toiledau'n effeithiol yn cael ei rhoi ar waith yn yr adran A&E.	Jayne Gregory	Mae bwndel glanhau ar gyfer glanhau toiledau bellach ar waith yn yr adran A&E. Mae pob aelod o staff yn ymwybodol o hyn ac mae tâp 'vernacare' ar gael.	Wedi'i gwblhau	Gwyrdd
Swnwyr				
Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod pob swyn yn y ddwy adran yn gweithio'n dda bob amser.	Jayne Gregory/ Lesley Cooil	Pan nad yw clychau galw yn gweithio am unrhyw reswm, caiff y broblem ei hadrodd i'r tîm ystadau er mwyn iddo ei datrys yn ddi-oed. Cam gweithredu: <ul style="list-style-type: none"> Dylai Metronau atgoffa'r staff o bwysigrwydd rhoi gwybod i'r tîm ystadau am unrhyw glychau galw diffygiol yn ddi-oed. 	Wedi'i gwblhau	Gwyrdd
Cyfathrebu				
Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod staff yn yr adran A&E yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio'r ddolen sain.	Jayne Gregory/ Lesley Cooil/	Rhaglen hyfforddi i'w datblygu a'i gweithredu ar gyfer pob aelod o staff.	Mehafin 2014	Ambr

	Nia Harrison			
Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod cymhorthion cyfathrebu ar gael yn y ddwy adran i helpu cleifion â nam ar y synhwyrau, a bod staff yn ymwybodol ohonynt.	Jayne Gregory/ Lesley Cooil/ Nia Harrison	Cynhelir asesiadau risg rheolaidd ar gleifion er mwyn nodi'r cleifion hynny sydd angen cymorth. Mae pob aelod o staff yn ymwybodol o hyn.	Wedi'i gwblhau	Gwyrdd